

# **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Meddygfa Bryntirion (Arfer a reolir gan y  
Bwrdd Iechyd) Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 13 Ionawr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mehefin 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	19
4.	Beth nesaf? .....	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Bryntirion, West Street, Bargoed, CF81 8SA sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 13 Ionawr 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol a chyfeillgar o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd yr amgylchedd yn groesawgar i bawb, ac roedd sylwadau'r cleifion am y practis yn gadarnhaol ar y cyfan.

Nodwyd bod y cyfathrebu rhwng y staff yn y practis yn dda, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli.

Roedd y trefniadau clinigol sydd ar waith yn y practis yn dda hefyd, ac roeddem yn teimlo bod y gofal a roddwyd o safon dda.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Roedd amrywiaeth dda o wasanaethau ar gael i'r cleifion, gan gynnwys gwybodaeth am hybu iechyd, yn ogystal â chlinigau rheolaidd ar gyfer cyflyrau parhaus
- Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cadw i safon dda.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygiad o'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod oll yn gyfredol
- Dylid adolygu'r asesiad risg amgylcheddol yn rheolaidd

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa Bryntirion yn darparu gwasanaethau i tua 7,000 o gleifion yn ardal Bargoed. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar partner meddyg teulu cyflogedig, tair nyrs, dau gynorthwydd gofal iechyd, pum aelod o staff gweinyddol, wyth derbynnnydd a rheolwr y practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Mân lawdriniaethau
- Clinig diabetes
- Clinig anadlu
- Gosod dulliau atal cenhedlu
- Brechiadau.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'u gofal a'u bod yn cael eu trin â pharch.

Roedd yn amlwg bod y tîm o staff yn canolbwyntio ar yr angen i greu amgylchedd digyffro a phleserus yn y practis. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw o'r farn eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Nodwyd gennym fod polisïau priodol ar waith o ran rhoi adborth i'r practis, a bod grŵp cyfranogiad cleifion gweithredol yn cynrychioli safbwyntiau cleifion y practis.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o 28 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*“Rwyf bob amser wedi cael gwasanaeth gofalgar a phroffesiynol gan bob aelod o'r tîm ym meddygfa Bryntirion. Maent yn gwrando ac yn helpu”*

*“Staff y dderbynfa yn barod iawn i helpu ac yn gyfeillgar iawn. Rwyf wedi cael gofal ardderchog gan y meddygon ers sawl blwyddyn”*

*“Ardderchog, rwy'n hoffi bod amrywiaeth o wasanaethau ar gael, fel y ffisio a'r cwnselydd”*



Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dyweddd y cleifion eu bod yn ei chael hi'n anodd trefnu apwyntiad. Ymysg y sylwadau eraill gan y cleifion roedd y canlynol:

*“Mae'r feddygfa ar agor tan 6.30pm ond rwy'n weithiwr. Byddai'n wych pe gallent gynnig apwyntiadau adolygu meddyginiaethau ar ôl 5pm yn ogystal ag adrannau brys”*

*“Gallai'r feddygfa foderneiddio. Byddai'n fuddiol cael mwy o apwyntiadau ar ôl ysgol. Rydych yn gallu clywed y derbynydd ar y ffôn, beth am chwarae cerddoriaeth er mwyn sicrhau mwy o breifatrwydd”*

*“Mae merched y dderbynfa yn hyfryd ond maent bob amser yn brysur. Byddai'n fuddiol cael ardal fwy preifat er mwyn trafod materion personol”*

## **Cadw'n iach**

Gwelsom fod amrywiaeth o bosteri wedi'u harddangos yn ardal aros y practis er mwyn i'r cleifion eu darllen wrth iddynt aros am eu hapwyntiad. Gwelsom hefyd fod gan y practis hysbysfyrddau a'i fod yn hysbysebu ar ap lle y gallai cleifion â ffonau clyfar gael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth am gyflyrau iechyd cyffredin a chynghor hybu iechyd.

## **Gofal ag urddas**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn y practis.

Gwelsom gleifion yn cael eu cyfarch a'u croesawu gan staff y dderbynfa mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar. Roedd y dderbynfa wedi'i lleoli yn union y tu mewn i fynedfa'r practis, wrth ymyl yr ystafell aros. Ar y diwrnod, gwelsom fod y trefniadau presennol yn golygu nad oedd galwadau ffôn gan y cyhoedd yn cael eu derbyn wrth ddesg y dderbynfa, gan sicrhau bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei barchu. Fodd bynnag, nodir bod claf wedi sôn y gallai glywed galwad ffôn yn ardal desg y dderbynfa, a gwnaethom hysbysu'r practis y dylid ystyried yr adborth hwn.

Yn ystod y dydd, nodwyd gennym bod rhai cleifion â symudedd cyfyngedig yn ei chael hi'n anodd dygymod â'r cadeiriau yn yr ystafell aros. Efallai yr hoffai'r practis ystyried gosod rhai seddau a fyddai'n haws i'r rheini ag anawsterau symudedd eu defnyddio.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau er mwyn helpu i amddiffyn preifatrwydd y cleifion. Roedd yr

ystafelloedd ymgynghori wedi'u rhannu'n ddwy ardal, gyda'r gwely triniaeth mewn ardal ar wahân. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion ddadwisgo'n breifat, pan oedd angen, cyn unrhyw driniaeth neu archwiliad. Gwelsom y gellid cloi'r drysau er mwyn cynnal preifatrwydd.

Roedd nifer o'r staff wedi'u hyfforddi i ddarparu gwasanaeth hebryngwr priodol i'r cleifion yn ystod archwiliadau personol, ac roedd hyn yn cael ei hysbysebu'n glir i'r cleifion.

Dywedodd tua dau o bob tri chlaf a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond weithiau y gallent weld eu dewis feddyg.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Roedd gan y practis daflen a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y practis a'r gwasanaethau yr oedd yn eu cynnig. Cafodd y daflen ei diweddarau yn ystod yr arolygiad er mwyn sicrhau y gall y cleifion gael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am y practis.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedwyd wrthym fod aelod o'r staff yn y practis yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, gallai'r bobl gael gwasanaeth yn eu dewis iaith, a gwelsom dystiolaeth y byddai'r llinell iaith yn cael ei chynnig os nad Cymraeg neu Saesneg oedd mamiaith un o'r cleifion. Er bod rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg, teimlwyd y gellid cynyddu'r ddarpariaeth hon. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Roedd gan y practis ddolen sain er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed i gyfathrebu, a gwelsom boster yn hysbysebu hyn yn yr ardal aros.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall, a dywedodd y cleifion hyn wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunant mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

## **Gofal amserol**

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael profiad da iawn neu dda.

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau ar yr un diwrnod yn cael eu brysbennu gan dderbynnnydd, ac yna byddai cleifion naill ai'n cael cynnig apwyntiad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol neu'n cael eu hatgyfeirio at wasanaeth arall. Roedd y practis hefyd yn hyrwyddo Dewis Fferyllfa<sup>2</sup> ar gyfer mân anhwylderau.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Hefyd, disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad, gan ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion ar lafar.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, dywedodd ychydig llai na thraean o'r cleifion nad oedd yn hawdd iawn cael apwyntiad.

---

2

[http://www.dewisdoethcymru.org.uk/sitesplus/documents/994/Minor%20Ailments%20Services\\_Leaflet\\_Welsh.pdf](http://www.dewisdoethcymru.org.uk/sitesplus/documents/994/Minor%20Ailments%20Services_Leaflet_Welsh.pdf)

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadair olwyn, y rheini ag anawsterau symudedd a'r rheini â chadeiriau gwthio, gan fod y brif ardal aros wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, a bod lifft er mwyn cyrraedd yr ail ardal aros ar y llawr cyntaf.

Roedd y practis yn cynnal clinigau i gleifion ag anghenion gofal iechyd penodol, fel asthma a diabetes, er mwyn eu helpu i reoli eu cyflyrau.

### **Hawliau pobl**

Mae'r canfyddiadau a ddisgrifir gennym drwy'r adran hon yn nodi bod y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran hawliau pobl.

### **Gwrando ar adborth a dysgu ohono**

Roedd gan y practis broses ar gyfer cael adborth gan gleifion. Roedd y broses hon yn cynnwys ffurflen awgrymiadau y gallai'r cleifion ei chwblhau'n ddiennw a'i rhoi yn y blwch awgrymiadau, yn ogystal â darparu adborth ar lafar. Gwnaethom drafod y trefniadau ar gyfer yr adborth a gwblhawyd â rheolwr y practis, a gadarnhaodd ei fod yn dadansoddi ac yn trafod yr adborth â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm. Yn deillio o hyn, dylid cyfleu unrhyw newidiadau i'r practis o ganlyniad i'r adborth hwn i'r cleifion.

Nodwyd gennym hefyd bod grŵp cyfranogiad cleifion gweithredol a oedd yn caniatáu i leisiau'r cleifion gael eu clywed gan gynrychiolwyr. Roedd y grŵp hwn yn cyfarfod bob deufis ac yn cynnig cyfle i drafod syniadau cleifion yn uniongyrchol â'r practis. Roedd sampl o gofnodion y cyfarfodydd yn dangos eu bod yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau ac yn cyflwyno syniadau amrywiol gan gleifion er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu'r safon uchaf o ofal.

Gwelsom fod proses Gweithio i Wella GIG Cymru<sup>3</sup> yn cael ei harddangos yn ardal y dderbynfa. Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd yn cadw cofnod o gwynion gan gleifion, a chofnod a oedd yn dangos y camau a gymerwyd.

---

<sup>3</sup> <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd gan y practis bolisiâu cynhwysfawr ar waith ar gyfer archwilio'r cyfarpar brys a'r meddyginiaethau.

Nododd y staff fod cydberthynas waith gadarnhaol rhwng y timau clinigol a'r timau anghlinigol, a oedd yn grymuso'r staff i godi pryderon pe byddent yn teimlo bod angen gwneud hynny.

Rhaid i'r practis sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol cyfredol ar waith er mwyn sicrhau y caiff y staff a'r cleifion eu diogelu rhag risgiau yn y practis.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Wrth fynd o amgylch y practis, gwelsom ei fod yn lân ac yn dilyn trefn dda, a oedd yn lleihau'r risg y byddai'r cleifion a'r staff yn baglu neu'n cwmpo. Gwelsom asesiad risg amgylcheddol ond roedd dros 12 mis oed. Dylai'r practis sicrhau y caiff asesiad risg rheolaidd ei gwblhau er mwyn gwneud yn siwr bod amgylchedd y practis yn parhau i fod yn ddiogel ac yn addas at y diben.

Gwelsom fod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei archwilio. Gwelsom hefyd fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff asesiad risg amgylcheddol ei gynnal yn rheolaidd ar gyfer y practis.

## Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis meddygon teulu yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Dyweddodd y staff wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt, megis menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr holl ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd glanweithwyr dwylo ar gael i'r meddygon teulu a'r nyrsys yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roedd glanweithydd dwylo ar gael ar waliau'r practis i bawb ei ddefnyddio.

Yn seiliedig ar sampl o gofnodion y staff, roeddem yn fodlon bod yr aelodau priodol o staff wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau priodol.

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o staff clinigol y practis statws imiwneiddio hepatitis B priodol. Mae hyn yn diogelu'r staff a'r cleifion rhag achosion posibl o groes-heintio.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer storio a thrin a thrafod cyffuriau a chyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf (megis achos o gwmpo). Mae Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru<sup>4</sup> yn pennu bod rhwymedigaeth ar sefydliadau/darparwyr gofal iechyd i ddarparu gwasanaeth dadebru o ansawdd da. Gwelsom fod yr offer argyfwng o safon dda a'i fod yn cynnwys yr holl gyfarpar sy'n ofynnol gan Gyngor Dadebru'r DU.

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i archwilio a chofnodi'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr eitemau yn aros yn ddiogel ac yn barod i'w defnyddio ac o fewn eu dyddiadau dod i ben.

Gwelsom fod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar gyfer pob aelod o'r staff.

---

<sup>4</sup> [Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru](#)

Roedd meddyginiaeth a brechiadau yn cael eu storio mewn oergell feddyginiaeth a oedd wedi'i chloi. Nodwyd gennym fod gwiriadau rheolaidd wedi cael eu cynnal ar dymheredd yr oergell feddyginiaeth. Mae'n bwysig bod meddyginiaethau a brechiadau yn cael eu storio ar y tymheredd cywir er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y tymheredd yn cael ei wirio bob dydd.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Gwelsom fod gan y practis bolisiau diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid oedd y polisi wedi cael ei ddiweddarau ac nid oedd y wybodaeth yn gyfredol. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn adran Llywodraethu ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn. Nodwyd arweinydd diogelu'r practis yn y polisi. Roedd canllawiau diogelu Cymru Gyfan ar gael i'r staff fel rhan o'u ffeil polisiau a gweithdrefnau.

Ar ôl adolygu sampl o gofnodion y staff, gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i sicrhau bod cyfarpar meddygol yn cael ei wasanaethu a'i galibradu er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn ddiogel i'w ddefnyddio.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd y trefniadau ar gyfer rhannu rhybuddion diogelwch a dderbyniwyd gan y practis yn cael eu rheoli'n briodol gan reolwr y practis a'u rhannu â'r staff perthnasol. Gwelsom fod unrhyw ddigwyddiadau pwysig yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad, a llwyddo i gadarnhau bod y staff yn cael eu hannog a'u grymuso i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.



## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwastraff cyfrinachol yn cael ei storio'n briodol.

Roedd systemau gwybodaeth wedi'u diogelu gan ddefnyddio cyfrineiriau, ac roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn swyddfeydd nad oeddent yn hygyrch i'r cyhoedd.

### Cadw cofnodion

Mae'r wybodaeth a ddelir mewn meddygfeydd yn defnyddio codau Read i ddarparu geirfa safonol i glinigwyr gofnodi canfyddiadau am gleifion a gweithdrefnau. Gwelsom fod gan y practis brosesau priodol ar waith i ddefnyddio codau Read i gofnodi canfyddiadau am gleifion. Nodwyd gennym fod y practis yn adolygu'r codau Read hyn o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyrraedd safon uchel.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod staff y practis yn cael cymorth da gan dîm rheoli'r practis ac roeddent yn gadarnhaol am gyfleoedd hyfforddi a datblygu.

Roedd cyfarfodydd rheolwyr a chyfarfodydd tîm clinigol yn cael eu cynnal ac roedd prosesau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Nodwyd gennym fod angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau yn gyfredol.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Gwelsom fod tîm practis cydlynol a oedd yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd tystiolaeth o gydberthnasau da rhwng aelodau o'r tîm rheoli a staff y practis, a gwelsom fod morâl y staff yn uchel yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu'n dda yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli.

Yn gyffredinol, y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am y practis ac mae rheolwr y practis yn ymgymryd â'r gwaith o'i reoli o ddydd i ddydd.

Dywedodd y staff nyrsio y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y meddygon teulu. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon clinigol â nhw ar unrhyw adeg o'r dydd.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd yn y practis er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng y staff. Roedd cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd ac yn cael eu cadw ar yriannau cyfrifiadurol. Roedd yr aelodau o staff na allent fynychu'r cyfarfodydd yn cael eu hysbysu am hyn. Gwnaethom awgrymu y gallai'r rheolwyr ofyn i'r staff ddarllen y cofnodion hyn ac unrhyw gamau gweithredu a chytuno arnynt. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu'n dda yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu trafod unrhyw faterion a oedd yn eu poeni yn agored.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, ac roedd y rhain ar gael ar-lein i'r staff. Gwnaethom adolygu sampl ohonynt yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys y weithdrefn gwyno, y polisi cleifion newydd, y polisi chwythu'r chwiban a'r trefniadau rheoli heintiau. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r rhan fwyaf ohonynt er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r practis, ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Roeddem hefyd o'r farn nad oedd rhai o'r polisiâu hyn yn benodol i'r practis, ac y gellid eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r busnes. Atgoffwyd y practis y dylid gwneud yn siwr bod unrhyw bolisiâu neu weithdrefnau ar gael yn hawdd ac y caiff pob aelod o'r staff wybod am unrhyw newidiadau.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl bolisiâu a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd tîm o staff sefydledig yn y practis, gyda llawer o aelodau o'r staff yn gweithio yno ers sawl blwyddyn. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn dangos dealltwriaeth dda o weithdrefnau'r practis.

Gwnaethom edrych ar nifer o ffeiliau hyfforddiant y staff, a gwelsom fod cofnodion hyfforddiant wedi cael eu cadw. Fodd bynnag, nid oedd matrices hyfforddiant y practis, sy'n cofnodi'r hyfforddiant a gwblheir gan bob aelod o'r staff, yn gyfredol. Roedd yn anodd felly dod i gasgliad cyflym p'un a oedd pob aelod o'r staff wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol o fewn yr amserlenni priodol, ac i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau'n gyfredol. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i benodi rheolwr practis newydd, a nodwyd gennym fod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â hyn.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu manteisio ar hyfforddiant mewnol ac ar-lein, ac roeddent yn teimlo bod y practis yn eu cefnogi i wneud hyn.

Gwelsom fod proses arfarnu staff ar waith a bod arfarniadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Yn ystod yr arolygiad, gofynnwyd am gael gweld sampl o gofnodion y staff, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer aelodau

priodol o'r staff. Gan fod y cofnodion hyn yn cael eu cadw'n ganolog gan y Bwrdd Iechyd, nid oedd yn glir ar gyfer pwy roedd y gwiriadau hyn wedi cael eu cynnal. Gwelsom dystiolaeth ar ffurf tystysgrifau ar gyfer pob meddyg teulu ond un.

Ar ôl sylweddoli bod tystysgrif ar goll, dechreuwyd ar y broses gwneud cais ar unwaith, a chyflwynwyd y cais cyn diwedd yr arolygiad. Ceir manylion am hyn yn Atodiad A.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gofrestru â'u corff proffesiynol, megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)<sup>5</sup> neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)<sup>6</sup>. Mae'n rhaid iddynt hefyd ailddilysu eu cofrestriad gyda thystiolaeth o ymarfer a hyfforddiant ar adegau sydd wedi'u diffinio. Er mai cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau y caiff ei gofrestriad ei gynnal, roedd y practis yn cadw'r wybodaeth hon yn ganolog, er mwyn sicrhau bod y staff wedi'u cofrestru o hyd â'u corff proffesiynol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau cyn-cyflogaeth priodol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff a'u bod ar gael yn hawdd os gofynnir amdanynt.

---

<sup>5</sup> <https://www.gmc-uk.org/>

<sup>6</sup> <https://www.nmc.org.uk/>

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Nid oedd gan un aelod o'r staff clinigol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).	Gallai hyn olygu bod risg i'r cleifion os bydd aelod o staff na chynhaliwyd gwiriadau priodol ar ei gyfer yn dod i gysylltiad â nhw.	Uwchgyfeiriodd AGIC y pryder i reolwr y practis a chynrychiolwyr y bwrdd iechyd yn ystod yr arolygiad.	Aeth y practis ati ar unwaith i wneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gyflwynwyd cyn diwedd yr arolygiad.

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:** Meddygfa Bryntirion

**Dyddiad arolygu:** 13 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**



## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Meddygfa Bryntirion**

**Dyddiad arolygu: 13 Ionawr 2020**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn yr adran hon				
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff asesiad risg amgylcheddol ei gynnal yn rheolaidd ar gyfer y practis.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff Aseidiadau Risg Amgylcheddol eu rhoi ar waith ar unwaith. Mae'r practis wedi cysylltu ag Adran berthnasol y Bwrdd Iechyd er mwyn cael y ffurflenni a'r canllawiau asesu risg cywir.	Nicola Goodfellow	Ar unwaith
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl bolisiâu a	Llywodraethu, Arweinyddiaeth	Caiff polisiâu a gweithdrefnau bellach eu	Nicola	Ar unwaith

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd.	ac Atebolrwydd	hadolygu gan Reolwr y Practis bob mis. Caiff y staff wybod am unrhyw newidiadau drwy e-bost a Chyfarfodydd y Practis.	Goodfellow	
Rhaid i'r bwrdd lechyd sicrhau bod gwiriadau cyn-cyflogaeth priodol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff a'u bod ar gael yn hawdd os gofynnir amdanynt.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r Bwrdd lechyd wedi sicrhau bod gwiriadau cyn-cyflogaeth priodol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Gellir cael gafael ar y wybodaeth hon drwy Adran lechyd Galwedigaethol y Bwrdd lechyd.	Nicola Goodfellow	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Nicola Goodfellow

**Teitl swydd:** Rheolwr Gyfarwyddwr Practisau a Reolir

**Dyddiad:** 27/02/2020